**ELL 10-02(p.4)**

# Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Newid ffordd o fyw trwy gyfathrebu am Ddatblygu Cynaladwy

**Gofynnir i Aelodau'r Cynulliad ystyried y papur hwn ac i:**

(i) Nodi, cymeradwyo cynnwys y ddogfen ac adnabod y blaenoriaethau pennaf.

(ii) Nodi barn ar y dull arbennig hwn o wneud argymhellion, a nodi'r ffordd orau o gyflwyno argymhellion ar gyfer y dyfodol (pa mor rheolaidd ac ar ba ffurf)

### 1.0 Cylch gorchwyl y Grŵp

Mae'r Grŵp yn un o is- grŵpiau'r **Panel Ymgynhorol** ar Addysg Datblygu Cynaladwy.

Gorchwyl y Grŵp yw cynnig argymhellion ar gyfer Gweinidogion ar ran y Panel Ymgynghorol, ar sectorau a/neu ymagweddau lle mae angen rhoi pwyslais er mwyn galluogi addysg effeithiol (cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth) mewn perthynas â Datblygiad Cynaladwy. Mae cwmpas diddordeb y Grŵp yn cynnwys sectorau addysg prif ffrwd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

### 2.0 Y Grŵp

Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat; yr oedd gan lawer ohonynt brofiad sylweddol wrth integreiddio elfennau o ddatblygiad Cynaladwy i weithgaredd sefydliadol. (Rhestr llawn o aelodau - Atodiad 2). Cadeiriwyd y Grŵp gan Wil Thomas, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Lisa Dobbins, Uned Datblygiad Cynaladwy, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Grŵp wedi cyfarfod bedair gwaith. Mewn trafodaethau cychwynnol, ystyriwyd canfyddiadau gwaith tebyg a wnaed mewn gwledydd eraill.

### 3.0 Beth yr oedd y Grŵp yn anelu at ei gyflawni

Ystyriaethau'r Grŵp oedd nodi'r dulliau mwyaf addas o ddechrau'r broses o addysgu Datblygiad Cynaladwy er mwyn datblygu'r gwaith o integreiddio arferion Datblygiad Cynaladwy i ymddygiad sectorau, sefydliadau neu i ymddygiad personol.

Wedi nodi dulliau o'r fath, tasg y Grŵp oedd blaenoriaethu camau gweithredu.

### 4.0 Prif Gasgliadau

Cydnabu'r Grŵp y gwnaed cynnydd sylweddol eisoes. Ymhellach, creodd y Cynllun Datblygiad Cynaladwy yr hinsawdd gywir ar gyfer cynnydd yn y maes hwn. Fodd bynnag, er mwyn cyflwyno newid cam wrth gam mewn patrymau ymddygiad, rhaid cael pwyslais cynyddol ar addysg (cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth).

#### *'Liferi' ar gyfer creu newid (levers for change)*

Wedi ystyried beth oedd y dulliau mwyaf effeithiol o ddylanwadu, cyrhaeddodd y Grŵp at y casgliad bod angen gwneud hyn o fewn sectorau penodol. Yn ogystal mae angen addasu'r negeseuon Datblygu Cynaladwy yn arbennig ar gyfer y sectorau.

Nododd y Grŵp nifer o sectorau pwysig lle y teimlwyd y byddai cyfathrebu yn effeithio ar ymddygiad ac arferion gwaith presennol. Cred y Grŵp ei bod yn bwysig cyrraedd yr holl sectorau hyn gan fod angen ar bawb ddeall bod gan gannynt rhan i chwarae.

Ar yr un pryd credir bod rhai sectorau'n allweddol i gynnydd gan eraill. Cyrff llywodraethol a chyrff awdurdodau lleol yw'r rhain yn bennaf sy'n meddu ar reolaeth dros 'liferi' penodol yn enwedig o ran polisïau, cynlluniau grant a systemau prynu ac archebu. Gall 'liferi' o'r fath ddylanwadu ar weithgareddau sedydliadau ac unigolion eraill.

Oherwydd hyn, mae llawer o'r **Argymhellion ar gyfer Gweithredu** cychwynnol yn argymell i Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol weithredu'n gyntaf.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y Grŵp mai dim ond fel cam cyntaf proses barhaus, nad yw'n eithrio unrhyw sector, y dylid ystyried unrhyw waith ar sectorau allweddol.

### *Offer a Chyhoeddusrwydd*
Cred y Grŵp wrth ddylanwadu ar 'liferi', y dylid annog sectorau a sefydliadau i ymateb i her Datblygiad Cynaladwy a'u galluogi i wneud hynny yn eu dull eu hunain, ac i'w hamserlen eu hunain. Y ffactor hanfodol yn hyn o beth yw darparu'r offer a'r mecanwaith i alluogi ac i gynorthwyo ymagweddau o'r fath gan annog pawb i addasu arfer da at eu dibenion eu hunain. Mae llawer o offer yn cael eu dyfeisio neu eu treialu eisoes; mae'n hanfodol y caiff rhain eu rhannu er mwyn galluogu pawb i ddysgu o'r hyn mae eraill wedi'i ddysgu wrth arbrofi.

### *Cyfrifoldeb Unigol*
Teimlai'r Grŵp ei fod yn hanfodol darbwyllo pobl i ymateb fel unigolion i her Datblygu Cynaladwy. Er hyn teimlwyd na fyddai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn debygol o lwyddo gan ei fod yn anodd gwybod beth i'w ddweud wrth gynulleidfaoedd cyhoeddus am Ddatblygu Cynaladwy. Cyrhaeddwyd at y farn bod angen gweithredu drwy sectorau, neu sefydliadau penodol gan ddarbwyllo ar bobl fel pobl gyflogedig, cyflogwyr, rhieni a phrynwyr.

### *Cydweithredu yn hytrach na Chystadlu*
Un o gasgliadau'r Grŵp oedd bod llawer i'w hennill drwy weithredu mewn partneriaeth, fel sy'n cael ei hannog gan y Cynulliad. Agorodd hyn cyfleoedd i drafod materion sy'n poeni pawb, ac i ddysgu o arfer da sy'n bodoli eisoes.

## 4.1 Argymhellion ar gyfer Gweithredu
Nododd y Grŵp nifer o **Argymhellion ar gyfer Gweithredu** ***(gweler Atodiad 1)***; dewiswyd y rhain ar y sail mae'r rhain yw'r gweithgareddau sydd fwyaf tebygol o roi'r broses ar waith;

## 5.0 Datblygiadau ar gyfer y dyfodol
Mae'r Grŵp wedi nodi nifer o feysydd lle y mae angen gweithgaredd pellach. Bwriad y Grŵp yw cyflwyno'r rhain fel **Argymhellion ar gyfer Gweithredu** ymhen 9-12 mis, yn dilyn ymchwil bellach. Bydd y Grŵp yn cynnal cyfarfodydd amrywiol er mwyn gallu gwneud hyn.

6.0 **Adnoddau**
Gall rhai o'r **Argymhellion ar gyfer Gweithredu** gael eu cyflawni o fewn adnoddau presennol; i'r rhan fwyf bydd angen darganfod adnoddau pellach. Pe dymunir, gall y Grŵp gyfarfod eto er mwyn darparu mwy o wybodaeth ar hyn.

| Atodiad 1- Argymhellion ar gyfer Gweithredu | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| L= Lifer, O= Offer, C=Cyhoeddusrwydd | | | | | | |
| **Rh** | **Cynulleidfa** | **Pam** | **L** | **O** | **C** | **Camau Gweithredu a Argymhellir** |
| 1 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Mae cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol yn bodoli ar gyfer integreiddio yr hyn mae datblygu Cynaladwy yn ei olygu. Gan ofyn am integreiddio y negeseuon hyn yn yr hyn mae tiwtoriaid yn ei gynnig medrir cynyddu lefel ymwybyddiaeth ar sawl lefel, drwy'r wlad | | | | Integreiddio Datblygu Cynaladwy i mewn i 'r hyn mae'r Cynulliad yn ei ddisgwyl gan strategaethau a sefydliadau addysgu allweddol e.e. trwy cyfleoedd fel;<br>• Llythyrau cytuno maes gwaith sefydliadau addysgu<br>• Integreiddio i fewn i'r hyn sy'n cael ei ddysgu e.e adolygiadau cwrwrciwlaidd, argymhellion gan ddarparwyr hyfforddiant ayb.<br>• Cynlluniau Addysg Strategol (Awdurdodau Addysg)<br>• Cytundebau a chyllid hyfforddi athrawon<br>• Strategaethau'r dyfodol e.e ar gyfer addysg 14-19 |
| 2 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Galluogi a herio pob sefydliad i ymateb i Ddatblygiad Cynaladwy trwy ddarparu'r offer a'r dulliau i alluogi sectorau i wneud cynnydd ar eu pen eu hunain | | | | Er mwyn helpu i gynnwys y sector breifat a chyhoeddus, ac i sicrhau bod camau gweithredu sefydliadau unigol yn gyson â gweledigaeth y Cynulliad, creu **Gwefan Datblygiad Cynaladwy**<br><br>Byddai hon yn cynnwys:<br>• enghreifftiau o arferion Datblygiad Cynaladwy llwyddiannus ymysg sefydliadau,<br>• offer syml i'w addasu e.e. polisïau a chynlluniau gweithredu sefydliadol,<br>• cyfeirio at ganllawiau, ac adnoddau sydd ar gael ar safleoedd eraill<br>• addasu deunydd cyfredol e.e. Pecyn Hyfforddi Llywodraeth Leol ac ati, a chysylltiadau ag adnoddau lle maent yn bodoli<br>• cyfathrebu'r holl brif strategaethau Datblygiad Cynaladwy<br>• cysylltiadau i Gynlluniau Gweithredu Datblygiad Cynaladwy pob un o gyrff y sector cyhoeddus (e.e. o fewn Cynlluniau Datblygu Unedol) gan sicrhau effaith rhaeadru<br><br>**Cynllun marchnata** i godi ymwybyddiaeth o'r wefan (i ddefnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes o fewn y sector cyhoeddus) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Er mwyn helpu i gyflwyno adroddiadau ar ymagweddau llwyddiannus ac i annog gweithgaredd newydd, arloesol neu gychwynnol | | | | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i drefnu **Dathliad Blynyddol** o gyflawniadau a chynnydd, ym maes Datblygiad Cynaladwy (gan sefydliadau ac unigolion eithriadol). |
| 4 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Er mwyn helpu i ganolbwyntio camau gweithredu ar rai prif feysydd o bryder, ac er mwyn caniatáu ar gyfer cyfathrebu ystyr Datblygiad Cynaladwy yn hawdd. Mae angen i sefydliadau yn arbennig gael gwybodaeth benodol am yr hyn a ddisgwylir ganddynt. | | | | Adeiladu ar y Cynllun Datblygiad Cynaladwy presennol a diffinio a sicrhau bod **Amcanion Datblygiad Cynaladwy Cymru** ar gael (cyhoeddusrwydd). Bydd angen i'r amcanion fod yn benodol e.e. cynyddu bioamrywiaeth 10% y flwyddyn. Mae amcanion penodol yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu ystyr Datblygiad Cynaladwy yn glir. |
| 5 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Rhannu arfer da a phwyntiau dysgu i alluogi eraill i fabwysiadu ymagweddau tebyg ond heb orfod dod ar draws yr un problemau | | | | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddyfeisio **offer i alluogi i fesurau Datblygiad Cynaladwy gael eu hintegreiddio'n hawdd i liferi fel grantiau a dulliau ariannu neu bolisïau** a sicrhau ei fod ar gael i eraill drwy e.e. wefan (gweler eitem 2)<br><br>Mae angen **Offer integreiddio, Astudiaethau achos ac Arweiniad a Hyfforddiant** ar frys ym meysydd **prynu ac archebu** (yn enwedig ar gyfer contractau arlwyo ac adeiladu) ac **ar gyfer rheoli ystadau.** |
| 6 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Er mwyn caniatáu i ddata gwaelodlin gael ei goladu a symudiad o'r gwaelodlin hwnnw – drwy ddefnyddio gweithdrefnau presennol. | | | | Cynnwys cwestiynau o fewn **gweithdrefnau gwerthuso ac ymchwil y Cynulliad** – o ran Datblygiad Cynaladwy a ffynonellau lleoli dysgu/gwybodaeth. I'w ddefnyddio gydag e.e. Arolwg Gwastraff |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Mae gan Gyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sefyllfa hollbwysig rhwng Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol a rhai sy'n derbyn neu sy'n elwa ar arian cyhoeddus.<br><br>Trwy ddylanwadu ar Gyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyddo i ehangu cwmpas y bobl a gyrhaeddir. | | | | **Hyrwyddo a dyrannu cyfrifoldeb dros y cysyniad o Ddatblygiad Cynaladwy i uwch staff a chyfarwyddwyr.**<br><br>**Hyfforddi a chynorthwyo personau cydgysylltiedig allweddol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad** i rannu gwybodaeth a phrofiad ac arfer da sy'n hysbys.<br><br>Helpu i gydlynu **pecyn offer Datblygiad Cynaladwy** (gweler eitem 12) |
| 8 | Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad | Mae Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn gyfrifol am lawer o'r liferi allweddol a all helpu pobl i ddeall a mabwysiadu arferion Cynaladwy. | | | | Dylai pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ddatblygu **Cynllun Gweithredu** – yn seiliedig ar waelodlinau sy'n bodoli eisoes (yn cynnwys ymwybyddiaeth staff ac ymwybyddiaeth clientau), a lle maent yn bwriadu bod mewn ychydig o flynyddoedd. Yn rhesymegol byddai'n golygu gweithio i lawr o ddangosyddion i dargedau ac amcanion.<br><br>Yn realistig dylai Cynllun Gweithredu gynnwys elfennau addysgol fel;<br><br>Cyfrannu at waith da drwy gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu **pecyn offer Datblygiad Cynaladwy** (arweiniad, gwybodaeth, hyfforddiant). Bydd hyn yn cynnwys yr angen o bryd i'w gilydd i hyrwyddo datblygiadau gwahanol.<br><br>**Hyfforddiant/ymwybyddiaeth staff** i esbonio cysyniadau ac i alluogi camau gweithredu, ac yn arbennig **hyfforddi a chynorthwyo staff Caffael ac Ystadau**<br><br>**Nodi sut y mae pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn bwriadu arfarnu pa liferi allweddol** (ariannu, grantiau, targedau y maent yn gyfrifol amdanynt) **y gellir eu diwygio i ystyried Datblygiad Cynaladwy** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ysgrifennu'r profiadau hyn fel **astudiaethau achos neu offer** i'w defnyddio gan sefydliadau eraill neu i'w hychwanegu at Wefan Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (eitem 2 uchod)<br><br>**Cyflwyno adroddiadau – Adroddiadau blynyddol** i gynnwys adroddiad ar gynnydd Datblygiad Cynaladwy, yn cynnwys ymdrechion a wnaed i godi ymwybyddiaeth. **Cysylltiadau â'r cyfryngau a datganiadau** – argymhellion a wnaed gan bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o ran sut y gellir cryfhau'r gwaith presennol o hybu negeseuon Datblygiad Cynaladwy neu sicrhau eu bod yn cael eu lledaenu yn amlach. |
| 9 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Er mwyn adlewyrchu lefel uchel nawdd Datblygiad Cynaladwy. Dechrau proses ar gyfer monitro a gwella camau gweithredu. Hybu negeseuon cyson o gefnogaeth tuag at egwyddorion Datblygiad Cynaladwy | | | | Mabwysiadu cynllun y **Gweinidog Gwyrdd** – i'w addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru, ond gyda chylch gorchwyl Datblygiad Cynaladwy (h.y. nid yn amgylcheddol yn unig). Dylai Gweinidogion ac adrannau rannu'r cyfrifoldeb dros ysgogi camau gweithredu a monitro cynnydd o fewn eu hadrannau eu hunain ac ymysg cyrff a noddir. |
| 10 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddatblygiad Cynaladwy a'i bwysigrwydd i bolisi | | | | Cynnwys codi ymwybyddiaeth o Ddatblygiad Cynaladwy o fewn **dogfennau** Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ac **areithiau Gweinidogion**, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol. I gynnwys system olrhain i helpu i fesur graddau'r llwyddiant. |
| 11 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddatblygiad Cynaladwy a'i bwysigrwydd i bolisi | | | | **Datganiadau i'r wasg** Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio at Ddatblygiad Cynaladwy a chyfraniad y Cynulliad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Os bydd gan sefydliad ddiddordeb mewn ymgorffori arferion Datblygiad Cynaladwy bydd yn ceisio cael offer i gynorthwyo'r broses integreiddio. Gall y Cynulliad fod yn broactif wrth gynorthwyo'r broses hon drwy greu a rhannu'r offer a dreialwyd eisoes a sicrhau eu bod yn hysbys. | | | | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal **proses werthuso – o'r offer sy'n bodoli eisoes**, a pha rai sy'n addas i'w defnyddio'n ehangach gan randdeiliaid, a nodi o le y maent ar gael (e.e. drwy wefan – gweler eitem perthnasol) |
| 13 | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol | Galluogi a herio pob unigolyn i fabwysiadu arferion Datblygiad Cynaladwy. Ymagwedd rychwantol wedi'i hanelu at gyrraedd y person ar y stryd. | | | | Defnyddio **logo/is-bennawd** gweladwy i ddangos cefnogaeth tuag at egwyddorion Datblygiad Cynaladwy<br>Atodi'r logo/is-bennawd i bob deunydd cyhoeddusrwydd<br>Hyfforddiant/ymwybyddiaeth Datblygiad Cynaladwy ar gyfer pobl y cyfryngau (drwy seminarau, darparu pecynnau gwybodaeth, ymweliadau a lledaenu gwybodaeth a chysylltiadau)<br>Defnyddio'r cyfryngau i greu ymwybyddiaeth o Ddatblygiad Cynaladwy. |
| 14 | Sector Gyhoeddus, yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Gwasanaeth Iechyd Gwladol | Galluogi gweithredu ar y cyd gan y sector – mae angen hyn er mwyn nodi arfer da at ddibenion lledaenu. | | | | **Pwyso a mesur gweithgaredd** Datblygiad Cynaladwy yn rheolaidd – yn cynnwys gweithgaredd LA21 – gan gynnwys yr hyn a gyflawnwyd drwy gyfathrebu â phobl, a pha arfer da a gododd y gellid ei fabwysiadu mewn llefydd eraill. |
| 15 | Sector Gyhoeddus, yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Gwasanaeth Iechyd Gwladol | Ar gyfer rhai sefydliadau, mabwysiadwyd polisïau Datblygiad Cynaladwy yn Lloegr, ond nid yng Nghymru. Cred y Grŵp y byddai'n werth cynnwys y polisïau Datblygiad Cynaladwy hyn yng Nghymru. | | | | Ar gyfer sefydliadau lle mae **cyfathrebu a pholisïau ar gyfer Datblygiad Cynaladwy yn bodoli ar gyfer adrannau o'r sefydliad yn Lloegr**, dylid ystyried eu hymgorffori yn yr adran o'r sefydliad a leolir yng Nghymru. |
| 16 | Sector Gyhoeddus, | Galluogi newid o'r tu fewn, yn deillio o | | | | **Datblygu strwythur o uwch aelodau** e.e. pennaeth pwyllgorau i fod yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Gwasanaeth Iechyd Gwladol | lefel uwch o ymwybyddiaeth | | | | gyfrifol am greu – o fewn y sefydliad – lefel uchel o ymwybyddiaeth o 'ymddangosiad' Datblygiad Cynaladwy (i gynnwys ystyried hyfforddi uwch aelodau). |
| 17 | Sector Breifat | Bydd busnes yn ymateb orau os bydd y sector yn 'berchen' ar yr ymagwedd ac os caiff ei hannog gan y sector. Bydd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi proses o gydweithredu ar waith. | | | | Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu adnoddau ar gyfer grŵp o bobl fusnes (yn cynrychioli rhwydweithiau a sefydliadau busnes sydd eisoes wedi gwneud cynnydd wrth integreiddio ymagweddau Datblygiad Cynaladwy) i gyflwyno adroddiad ar<br>A) **waith pwyso a mesur gweithgaredd presennol**<br>B) nodi beth yw'r **prif gyfleoedd a rhwystrau** o ran integreiddio Datblygiad Cynaladwy i fusnesau |

## Atodiad 2

### Rhestr lawn o aelodau'r Grŵp Cyfathrebu Datblygiad Cynaladwy

Wil Thomas, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Lisa Dobbins, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Uned Datblygiad Cynaladwy
Andy Rees, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Uned Gwastraff
Tom Bourne, Awdurdod Datblygu Cymru
Kendal Davies, Cyngor Sir Caerfyrddin
Peter Evans, Sony Pencoed
John Farrar, Prifysgol Cymru, Bangor
Ann Jenkins, ELWa
Andrew Gray, Groundwork Wales
Paul Halstead, Coleg Y Barri
Alan Netherwood/ Cassie Edwards Cyngor Sir Caerdydd
Alan Tillotson, Rhwydwaith ARENA
Tony Edwards, Ymgynghorwyr Penarth
Peter Williams, Gwasanaeth Iechyd Gwladol